

Esboniad o Dwyll Trawsgludo a pham ei fod yn berthnasol i chi



Mae twyll trawsgludo'n digwydd pan mae'r twyllwr yn codi gohebiaeth sy'n ymwneud â gwerthu eiddo ac yn cyfarwyddo'r cleient i dalu'r arian i mewn i gyfrif banc newydd sy'n cael ei reoli gan y twyllwr.

Mae'r math hwn o dwyll hefyd yn cael ei adnabod fel Twyll Mandad neu Dwyll Anfoneb.

Mae twyll trawsgludo fel arfer yn digwydd oherwydd Cyfaddawd E-bost Busnes.

Unwaith y mae cyfrif e-bost wedi'i gyfaddawdu, mae gan y troseddwr reolaeth o'r cyfrif e-bost ac mae'n medru golygu e-byst i ddiwallu ei ddibenion.

Mae angen i'ch cleientiaid fod yn ymwybodol o'r twyll hwn ac mae angen ichi ddweud wrthynt na fydd rhifau cyfrif a chodau didoli'n cael eu newid yn ystod y broses drawsgludo.

Diogelwch eich hun, diogelwch eich cleientiaid.



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Pa mor gyffredin yw Twyll Trawsgludo?

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymdrin â sawl achos, ac mae twyllwyr yn mynd yn well am gyflawni'r math hwn o dwyll.

Rhwng Ionawr 2020 a Rhagfyr 2020 yn y DU, ar gyfartaledd, y golled yr adroddwyd amdani gan y dioddefydd oedd £121,586.

Wrth i bobl ddod allan o'r cyfnod clo, bu cynnydd mawr yn nifer y bobl sy'n edrych ar brynu a gwerthu tai, ac mae hyn yn cynnig cyfle proffidiol i droseddwr sy'n edrych i amddifadu pobl o'u cynilion oes.

- Mae'r twyllwr yn honni mai ef yw'r cyfreithiwr trawsgludo neu'r asiant tai ac yn gofyn i'r cleient sy'n prynu drosglwyddo arian i gyfrif sy'n cael ei reoli ganddo.
- Mae ffugio e-byst a hacio e-byst yn dechnegau a hwylusir gan dechnoleg a ddefnyddir o fewn twyll trawsgludo ac mae'r ddau ddull yn aml yn cael eu cyfuno.
- Fel arfer, telir arian drwy drosglwyddiad banc.
- Mae'r rhan fwyaf o droseddau twyll trawsgludo'n digwydd ar ddyddiau lau a Gwener.
- Y prif drafodyn a dargedwyd oedd y cyfarwyddyd i drosglwyddo arian o'r prynwr i'r trawsgludwr.
- Roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau a ddywedodd eu bod wedi dioddef twyll trawsgludo'n fusnesau bach gyda rhwng 1 a 9 gweithiwr.
- Roedd gan dros hanner y sefydliadau a ddywedodd eu bod wedi dioddef twyll trawsgludo drosiant ariannol o lai nag £1.5 miliwn.
- Mae'r effaith ariannol ar ddioddefydd un twyll trawsgludo'n sylweddol a gall gael effeithiau parhaol ar ei les ariannol.
- Yn aml, mae cynilion oes yn cael eu colli mewn un trafodyn twyllodrus.
- Y dioddefwyr mwyaf cyffredin yw dynion a menywod 30-39 oed.
- Mae achosion o dwyll trawsgludo ar gynydd.

Fel gweithiwr cyfreithiol proffesiynol, beth fedraf i wneud?

- Dywedwch wrth eich cleient – gwnewch yn siŵr ei fod yn gwybod beth yw Twyll Trawsgludo.
- Sicrhewch fod eich cleient yn gwybod na fyddwch chi byth yn anfon manylion cyfrif banc newydd iddo, ac os ydych chi'n derbyn gwybodaeth o'r fath, y dylai gysylltu â chi ar rif ffôn hysbys y cytunwyd arno er mwyn trafod y mater.
- Dywedwch wrth y cleient am sicrhau bod sillafiad enw'r cyfrif, y rhif cyfrif a'r codau didoli bob amser yr un fath â'r rhai sydd ar eich dogfennau swyddogol. (Nid yw Amazon yr un peth ag Amz0n neu Amazom.)
- Argraffwch rybuddion yn cyngori cleientiaid na fydd rhifau Cyfrifon Banc yn cael eu newid. Rhowch y rhybudd ar glawr eich deunydd darllen a sicrhewch fod unrhyw hen ddeunydd darllen naill ai'n cael ei ddiweddarau neu ei ddiinstrio.
- Sicrhewch fod pob e-bost yn cynnwys hysbysiadau ynghylch Twyll Trawsgludo fel bod y cleient yn cael ei atgoffa'n gyson i fod yn wyliadwus yn ei gylch.
- Pwysleiswch y dylai'r cleient bob amser wirio â'ch swyddfa cyn talu, gan ddefnyddio rhif ffôn dilys.
- Sicrhewch fod yr holl bersonél yn eich swyddfa'n gwybod am yr achosion twyll diweddaraf a'u bod yn medru addysgu'ch cleient amdanynt.
- Mewn sefyllfaoedd fel prynu eiddo, mae'r galon yn aml yn rheoli'r pen a gall terfynau amser a phenderfyniadau wedi'u rhuthro fod yn un o arfau'r troseddwr. Drwy osod y cleient o dan gyfyngiadau amser, sy'n eu gorfodi i ruthro i wneud penderfyniad, gall troseddwr eu drysu a'u twyllo i gredu bod y ceisiadau'n ddilys.



Cyfaddawd E-bost Busnes yw'r prif ffordd y mae'r twyll hwn yn digwydd.

Mae troseddwy'r yn llwyddo i dreiddio system e-bost (rheolaeth cyfrinair gwael, bygythiad mewnol neu gronfa ddata â chyfrineiriau wedi'u rhestru arni'n cael ei chyfaddawdi).

Unwaith y bydd y troseddwr yn y system e-bost, gall troseddwr esgus mai ef yw'r defnyddiwr dilys.

Gosodir 'Rheolau' neu 'Hidlyddion' ar y systemau e-bost er mwyn galluogi troseddwy'r i 'barcio' e-byst mewn ffolderi eraill, yn barod iddynt ddarllen, a sicrhau na fydd y partion dilys yn eu gweld nhw yn y mewnlwch.

Drwy gymryd rheolaeth o'r system e-bost, gall troseddwy'r newid manylion penodol, â gweddill yr e-bost yn cadw ei ffurf ddilys - dim ond y Talai, y rhif Cyfrif a'r cod Didoli sydd angen eu newid.

Mae troseddwy'r yn aml yn sefydlu gwefannau a chyfrifon banc ag enw sy'n debyg i gyfrif banc y cwmni dilys, felly ni fydd y cleient yn sylwi ar wahaniaeth mân yn y sillafiad.

Fel cynrychiolydd cyfreithiol, holwch y cwestiynau hyn ichi'ch hun:

- Hyfforddiant/Ymwybyddiaeth – a yw'ch staff yn llwyr ymwybodol o'r math hwn o drosedd?
- A yw'ch holl gyfrineiriau'n unigryw a chryf?
- Ydych chi wedi gwirio hidlyddion a rheolau'ch system e-bost yn ddiweddar?
- Ydych chi'n hysbysu'ch cleientiaid yn rhagweithiol am y math hwn o drosedd?
- Pa gamau ydych chi wedi cymryd er mwyn sicrhau nad yw'ch system e-bost yn cael ei chyfaddawdu?
- A oes unrhyw wefannau eraill yn honni mai chi ydyn nhw?
- Beth yw'r polisi o ran cyfrineiriau o fewn eich sefydliad?
- A yw'ch holl feddalwedd yn ddilys?
- Ydych chi'n gwybod eich bod chi'n medru anfon e-byst amheus ymlaen at report@phishing.gov.uk?
- Ydych chi'n gwybod eich bod chi'n medru anfon negeseuon twyllodrus amheus ymlaen at 7726?
- Ydy'ch staff yn gwybod sut i wirio anfonwr go iawn e-bost?
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data – ydych chi'n ymwybodol o'ch rhwymedigaethau os yw'ch cwmni'n datgelu data heb ganiatâd?



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Twyll trawsgludo – Diogelwch eich hun, diogelwch eich cleientiaid.